Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## The Whites Dental Centre, Radur

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ebrill 2023

Dyddiad cyhoeddi: 21 Awst 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-539-8

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 17

4. Y camau nesaf .......... 19

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 20

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .......... 21

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Whites Dental Centre, Radur ar 24 Ebrill 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 49 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y staff yn The Whites Dental Centre yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gwasanaeth a gafwyd yn y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn, gan nodi bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn' neu'n 'dda'
- Roedd y practis yn gwbl hygyrch, gyda deintyddfeydd ar y llawr gwaelod, toiled i bobl anabl a derbynfa ac ystafelloedd aros mawr.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Roedd yr ardaloedd cymunedol a chlinigol hefyd yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth bod polisïau a gweithdrefnau amrywiol ar waith i reoli heintiau yn y practis.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r uwch-aelodau o'r staff gynnal archwiliad rhagnodi gwrthfiotig CAPRO ac archwiliad rhoi'r gorau i smygu
- Dylai'r practis sicrhau y caiff pob blwch offer miniog ei storio'n ddiogel ac allan o gyrraedd plant
- Mae angen i'r holl graciau yn llawr pren yr ystafell ddihalogi gael eu selio er mwyn sicrhau y gellir ei lanhau'n effeithiol
- Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant ar ddiogelu cyn gynted â phosibl.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safle'r practis yn hygyrch, mewn cyflwr da ac wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

- Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn The Whites Dental Centre.

Roedd amrywiaeth o bolisïau ysgrifenedig ar waith yn y practis, a oedd ar gael i'r staff i'w cefnogi wrth eu gwaith. Roedd pob polisi yn gyfredol ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Mae angen i adroddiad rheoliad 16 gael ei gwblhau ar gyfer y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd amrywiaeth o bolisïau ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal y maent yn ei gael yn y practis hwn. Cafwyd cyfanswm o 49 o ymatebion gan gleifion yn y practis.

Ar y cyfan, roedd yr holl sylwadau gan gleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael yn dda iawn neu'n dda'.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan gleifion yn holiaduron AGIC yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae Whites yn rhoi gofal arbennig ac yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf. "Mae'r staff yn broffesiynol, yn effeithlon ac yn ofalgar iawn.*
>
> *"Rwyf wedi defnyddio practis deintyddol Whites ers 1983. Does dim byd wedi achosi pryder i mi erioed. Mae'r practis wedi diweddaru'r gwasanaeth mae'n ei gynnig yn barhaus, ac mae'n cynnig lefelau cyson uchel o wasanaeth."*

### Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**

Roedd pob un o'r 49 o ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr hefyd fod y tîm deintyddol yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Pan ofynnwyd a gawsant gyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da, nododd 48 o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cyfarwyddiadau o'r fath, a nododd un claf nad oedd hyn yn berthnasol iddo.

Roedd enw'r practis i'w weld yn amlwg y tu allan i'r practis, ynghyd â gwybodaeth am oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng. Roedd rhestr gyfredol o enwau'r staff a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion, a oedd ar gael wrth ddesg y dderbynfa ac yn yr ystafell aros.

Gwelsom ddarnau amrywiol o wybodaeth hybu iechyd wedi'u harddangos i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys cyngor meddygol ynglyn â chwyrnu a diffyg fitaminau. Roedd arwyddion dim smygu hefyd wedi'u harddangos yn glir.

**Gofal Urddasol a Pharchus**

Roedd yn amlwg bod y staff yn The Whites Dental Centre yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod drysau'r holl ystafelloedd clinig yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Roedd yr ardal aros hefyd wedi'i lleoli i ffwrdd o ddesg y dderbynfa, gan sicrhau na allai cleifion a oedd yn aros am eu hapwyntiad glywed sgyrsiau.

Dywedwyd wrthym y gellid defnyddio deintyddfa wag pe bai cleifion am gael sgyrsiau preifat â staff y practis.

Dywedodd pawb a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch. Roeddent hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau yn ystod eu hapwyntiad.

Wrth gyrraedd y practis, nid oedd egwyddorion moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn y practis. Fodd bynnag, ar ôl siarad â'r staff, unionwyd hyn a gwelsom fod egwyddorion y Cyngor wedi'u harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa cyn gadael y practis.

**Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn**

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt, ynghyd â risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur (48/48) wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Nid ymatebodd un claf i'r cwestiwn hwn.

## Amserol

**Gofal Amserol**

Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn gyfrifol am roi gwybod i gleifion am unrhyw oedi o ran eu hapwyntiadau. Byddai'r staff deintyddol yn cysylltu â desg y dderbynfa i roi gwybod am unrhyw oedi, a byddai staff y dderbynfa wedyn yn rhannu'r wybodaeth hon â chleifion yn bersonol.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd y practis yn defnyddio unrhyw system trefnu apwyntiadau ar-lein. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, drwy e-bost,

neu yn bersonol yn y practis. Dywedwyd wrthym y gellid ffonio i gael apwyntiad brys ar yr un diwrnod.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (45/49) wrthym eu bod wedi ei chael hi'n ‘hawdd iawn’ trefnu apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd y pedwar ymatebydd arall wrthym eu bod wedi ei chael hi'n ‘eithaf hawdd’ trefnu apwyntiad. At hynny, dywedodd y mwyafrif (46/49) wrthym y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedodd dau ymatebydd wrthym na fyddent yn gwybod sut i wneud hynny, ac nid atebodd un claf y cwestiwn hwn.

## Teg

### Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom fod costau triniaethau wedi'u harddangos yn glir yn ardal derbynfa'r practis.  Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i'r holiadur fod costau yn cael eu hegluro iddynt cyn iddynt gael triniaeth.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg. Lle bo angen, cawsom wybod bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r staff i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion a pholisi cwynion. Roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Saesneg, ond dywedodd y staff wrthym y gellid trefnu i ddarparu'r wybodaeth mewn fformatau gwahanol pe gofynnwyd am hynny.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC (46/49) wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Nododd y tri ymatebydd arall mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. At hynny, dywedodd y tri ymatebydd hyn wrthym eu bod weithiau'n cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg drwy gydol eu taith fel claf, a'u bod bob amser yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y practis.

### Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod staff The Whites Dental Centre yn ymrwymedig i ddarparu triniaeth mewn ffordd a oedd yn cydnabod hawliau cleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith. Roedd polisi dim gwahaniaethu hefyd ar waith yn y practis, yn ogystal â phrotocol cynhwysiant o ran rhywedd. Roedd y protocol hwn yn nodi pwysigrwydd defnyddio rhagenwau a ffefrir ac yn annog y defnydd o iaith niwtral o ran rhywedd mewn sgyrsiau ffurfiol ac anffurfiol.

Roedd deintyddfeydd wedi'u lleoli ar lawr cyntaf a llawr gwaelod y practis. Roedd ardal aros fawr a thoiled a chyfleusterau golchi dwylo ar gael ar y llawr gwaelod, gan olygu bod y practis yn hygyrch i bob claf.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur (47/49) nad oeddent byth wedi wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn yn The Whites Dental Centre. Nododd y ddau glaf arall eu bod yn teimlo eu bod wedi wynebu gwahaniaeth ar sail oedran, ond ni roesant unrhyw wybodaeth ychwanegol am hyn.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Roedd yn amlwg fod y safle yn cael ei gynnal i safon uchel, yn fewnol ac yn allanol. Roedd ardal aros fawr yn y practis hefyd, a oedd yn addas ar gyfer nifer y deintyddfeydd, ac roedd digon o gyfleusterau newid a storio i'r staff.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr ar waith yn y practis, ynghyd â pholisi cynnal a chadw'r adeilad a chynllun parhad busnes. Roedd yr holl ddogfennau yn gyfredol.

Er bod y cynllun parhad busnes yn cynnwys manylion cyswllt pob gwasanaeth y gellid cysylltu ag ef mewn argyfwng, gwnaethom argymell y dylid cadw rhestr o'r manylion cyswllt hyn ar hysbysfwrdd y staff, fel bod modd cael gafael arni mewn argyfwng.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig lunio rhestr o fanylion cyswllt brys i'w chadw yn ardal gymunedol y staff, fel bod modd cael gafael arni'n hawdd mewn argyfwng.**

Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom nad oedd modd cloi'r ystafell ddihalogi ac, felly, nad oedd cleifion yn cael eu hatal rhag mynd i mewn iddi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff clo ei osod ar ddrws yr ystafell ddihalogi er mwyn atal cleifion rhag mynd i mewn iddi.**

Rhoddodd y staff gopi i ni o asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar gyfer y practis. Roedd arwyddion clir ar gyfer allanfeydd tân, ac roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn ardaloedd cymunedol y practis. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelwch tân ar gael i'r staff ei ddefnyddio pe bai tân. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol ar waith. Wrth edrych ar hyfforddiant staff, gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar hyfforddiant cyfredol ar ddiogelwch tân.

Yn ystod ein taith o amgylch y safle, gwelsom fod blychau offer miniog yn cael eu storio ar y llawr mewn deintyddfeydd, o fewn cyrraedd plant a oedd yn ymweld â'r practis. Rhaid i'r rhain gael eu storio'n ddiogel y tu hwnt i gyrraedd, ac rydym yn argymell y dylid defnyddio bracedi i'w gosod ar y waliau.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff blychau offer miniog eu storio'n ddiogel ac allan o gyrraedd plant.**

Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu mewnol effeithiol yn y practis. Gwelsom alwadau'n cael eu gwneud rhwng desg y dderbynfa a'r deintyddfeydd.

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
Gwelsom dystiolaeth bod polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

O blith y 49 o gleifion o gwblhaodd holiadur AGIC, dywedodd 48 wrthym fod amgylchedd y practis yn lân iawn, yn eu barn nhw, a dywedodd un ymatebydd ei fod yn eithaf glân. At hynny, teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr (46/49) fod mesurau atal a rheoli heintiau'n cael eu dilyn yn y practis; teimlai dau ymatebydd fod y mesurau hyn yn cael eu dilyn weithiau, ac nid atebodd un claf y cwestiwn hwn.

Gwelsom dystiolaeth bod contract glanhau ar waith, ynghyd â rhestr glanhau. Er bod yr holl loriau, eitemau meddal, bleinds a'r landin wedi'u nodi yn y rhestr glanhau, nid oedd unrhyw gyfeiriad at yr ystafell ddihalogi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r ystafell ddihalogi gael ei chynnwys yn rhestr glanhau'r practis.**

Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom fod nifer o graciau yn y llawr yn yr ystafell ddihalogi, gan effeithio ar y gallu i lanhau'r ystafell yn drylwyr. Rydym yn argymell y dylai'r holl graciau gael eu selio, fel bod modd glanhau'r llawr yn effeithiol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl graciau yn llawr pren yr ystafell ddihalogi eu selio er mwyn sicrhau y gellir ei lanhau'n effeithiol.**

Nododd ein canfyddiadau mai dim ond yn wythnosol, yn hytrach nag yn ddyddiol, yr edrychwyd ar gofnodion data'r awtoclafau.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau yr edrychir ar gofnodion data'r awtoclafau yn ddyddiol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyfarpar yn gweithio'n effeithiol.**

Wrth edrych ar ffeil COSHH y practis, gwelsom nad oedd yn cynnwys rhestr o'r deunyddiau a'r cynhyrchion unigol a oedd ar gael yn y practis, na'r broses i'w dilyn pe bai digwyddiad neu ddamwain. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a gofyn am i'r ffeil gael ei diweddaru i gynnwys y wybodaeth hon.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y ffeil COSHH ei diweddaru i gynnwys rhestr o'r deunyddiau a'r cynhyrchion unigol sydd ar gael yn y practis, yn ogystal â'r broses i'w dilyn pe bai digwyddiad neu ddamwain.**

Roedd cyfleusterau hylendid dwylo addas ar gael. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hawdd i'r staff ei ddefnyddio.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

**Rheoli Meddyginiaethau**
Cadarnhaodd y staff na chaiff unrhyw feddyginaethau eu dosbarthu yn The Whites Dental Centre.

Roedd trefniadau a pholisi cynhwysfawr ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol. Roedd y polisi hwn yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol cyfredol ar ddadebru.

Gwnaethom edrych ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys. Roedd yr holl gyffuriau brys yn gyfredol; fodd bynnag, roedd y dyddiad ar y masgiau plant ac oedolion ac un llwybr anadlu wedi mynd heibio. Cadarnhaodd y staff fod yr eitemau hyn wedi cael eu harchebu, ond bod oedi wedi bod cyn iddynt gael eu dosbarthu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi tystiolaeth i AGIC pan fydd y cyfarpar brys gofynnol wedi cyrraedd.**

Roedd pecyn cymorth cyntaf a swyddogion cymorth cyntaf dynodedig ar gael yn y practis. Roedd yr holl swyddogion cymorth cyntaf wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf perthnasol.

**Diogelu Plant ac Oedolion**
Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu'r practis. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion cyswllt lleol er mwyn rhoi gwybod am unrhyw bryderon.

Wrth edrych ar hyfforddiant staff gwelsom, er bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, mai dim ond hyfforddiant Lefel 1 yr oedd llawer ohonynt wedi ei gwblhau. Rhaid i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant Lefel 2, o leiaf, ar ddiogelu cyn gynted â phosibl.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i bob aelod o'r staff clinigol gwblhau hyfforddiant Lefel 2 ar ddiogelu.**

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**
Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu gofal a thriniaeth deintyddol.

Roedd yn amlwg bod y cyfarpar deintyddol yn y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod mewn cyflwr da. Fodd bynnag, nid oedd y ddyfais ailorchuddio nodwyddau (re-sheathing needle device) yn cael ei defnyddio fel mater o drefn. Yn lle hynny, byddai'r nyrsys deintyddol yn tynnu'r nodwyddau yn ddarnau ac yn eu gwaredu yn yr ystafell ddihalogi.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r staff ddefnyddio'r ddyfais ailorchuddio fel mater o drefn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal mor ddiogel ac effeithiol â phosibl.**

Mae pod dihalogi wedi'i osod yn ystafell ddihalogi'r practis. Fodd bynnag, oherwydd ei leoliad, mynediad cyfyngedig oedd i ochr 'frwnt' y pod, gan beri risg i ddiogelwch y staff. Dywedodd y staff wrthym fod y pod wedi'i ddylunio i gylchdroi, ond nid oedd y nodwedd hon yn weithredol yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r uned sterileiddio gael ei gosod mewn man arall, fel ei bod yn hawdd cael mynediad i'r ochr lân a'r ochr frwnt.

Roedd archwiliadau pelydr-X yn cael eu cyflawni yn y practis. Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod cofnod cynnal a chadw ar waith, ynghyd â rhestr gyfredol o gyfarpar a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Roedd hyn yn cynnwys enw'r gwneuthurwr, rhif cyfresol a rhif model y cyfarpar, a dogfennaeth sicrwydd ansawdd ar gyfer prosesu delweddau.

## Effeithiol

**Gofal Effeithiol**
Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis. Roedd tystiolaeth hefyd fod strwythurau rheoli clir ar waith.

**Cofnodion y Cleifion**
Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol saith claf. Gwelsom fod system briodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel.

Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, megis enw a dyddiad geni'r claf. At hynny, roedd y rheswm pam roedd y cleifion wedi dod i'r ysbyty a, lle y bo'n briodol, y symptomau a ddisgrifiwyd gan y cleifion wedi'u cofnodi.

Roedd yr holl gofnodion yr edrychwyd arnynt hefyd yn cynnwys hanes meddygol cyfredol, siartiau sylfaenol llawn, a chofnodion o archwiliad periodontol sylfaenol (BPE) llinell sylfaen.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Y prif ddeintydd oedd perchennog The Whites Dental Centre a'r unigolyn hwn, ynghyd ag uwch-aelodau eraill o'r staff deintyddol, oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaethau a ddarparwyd o ddydd i ddydd.

Dywedodd y staff wrthym am y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm o staff y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff a chyfathrebu ad hoc â'r staff.  Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion yn cael eu cymryd mewn cyfarfodydd.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o bolisïau ysgrifenedig, a oedd ar gael yn hawdd i'r staff i'w cefnogi wrth eu gwaith. Roedd pob un o'r polisïau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Roedd datganiad o ddiben y practis, a'r daflen wybodaeth i gleifion, yn gyfredol. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oes adroddiad Rheoliad 16 wedi cael ei lunio ar gyfer y practis eto.

**Rhaid i reolwr cofrestredig The Whites Dental Centre drefnu i adroddiad Rheoliad 16 gael ei lunio cyn gynted â phosibl.**

## Y Gweithlu

**Gweithlu Medrus a Galluog**
Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio aelodau newydd o staff ac roedd polisïau ar waith i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff.
Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff. Roedd pob un ohonynt yn cynnwys tystiolaeth o gofrestriad yr aelod o'r staff â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, imiwnedd rhag Hepatitis B, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yswiriant indemniad proffesiynol. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant.

Gwnaethom siarad â'r staff am y broses a oedd ar waith i'w galluogi i godi pryderon. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi pryderon ac y

byddent naill ai'n siarad â rheolwr y practis neu uwch-ddeintydd. Roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith yn y practis.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**

Dywedodd y staff wrthym am y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer ceisio adborth gan gleifion. Roedd holiaduron ar gael wrth y dderbynfa i gleifion eu cwblhau. Roedd adolygiadau ar-lein yn cael eu hannog hefyd, ac roedd blwch awgrymiadau ar gael pe bai cleifion am wneud sylwadau'n ddi-enw.

Roedd gweithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn glir yn ardal y dderbynfa. Roedd y ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys enw'r person a oedd y gyfrifol am ymdrin â chwynion yn y practis, amserlenni ar gyfer delio â chwynion a manylion cyswllt AGIC.

O blith y 49 o gleifion a gwblhaodd holiadur, dywedodd 44 wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth. Nododd y pum claf arall nad oedd hyn yn berthnasol iddynt.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**

Cawsom enghreifftiau o archwiliadau amrywiol a gwblhawyd yn y practis, gan gynnwys archwiliadau o gofnodion clinigol a phelydr-X. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis wedi cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu nac archwiliad o ragnodi gwrthfiotigau CAPRO eto. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a gofyn iddynt gwblhau'r ddau archwiliad cyn gynted â phosibl.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad o ragnodi gwrthfiotigau CAPRO eu cwblhau yn fuan.**

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: The Whites Dental Centre

## Dyddiad yr arolygiad: 24/04/23

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith | | | | | |
| | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: The Whites Dental Centre

## Dyddiad yr arolygiad: 24/04/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **Roedd rhestr o fanylion cyswllt brys ar gael yn y cynllun parhad busnes, ond nid oedd y rhestr hon ar gael yn hawdd yn yr ardal gymunedol, pe bai argyfwng.** | Dylai'r rheolwr cofrestredig lunio rhestr o fanylion cyswllt brys i'w chadw yn ardal gymunedol y staff, fel bod modd cael gafael arni'n hawdd mewn argyfwng. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22 (2) (b) | Mae rhestr newydd o fanylion cyswllt brys wedi cael ei diweddaru a'i gosod yn ardal gymunedol y staff. | Sandra Evans | 17/07/23 |
| **Nid oedd modd cloi'r ystafell ddihalogi.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff clo ei osod ar ddrws yr ystafell ddihalogi er mwyn atal cleifion rhag mynd i mewn iddi. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22 (1) (a) | Cysylltwyd â saer cloeon ar 12/07/23 - yn aros i glo gael ei osod yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 24/07/23. | Sandra Evans | 24/07/23 |
| **Yn ystod ein hymweliad, roedd blychau offer** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff blychau offer | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat | Mae'r blychau wedi cael eu symud o'r llawr | Sandra Evans | 12/07/23 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **miniog yn cael eu storio ar lawr y deintyddfeydd, o fewn cyrraedd plant.** | miniog eu storio'n ddiogel ac allan o gyrraedd plant. | (Cymru) 2017 - Rheoliad 22 (1) (a) | ac maent yn cael eu storio'n ddiogel y tu hwnt i gyrraedd plant/cleifion. | | |
| **Gwnaethom edrych ar restr glanhau'r practis, ond nid oedd yr ystafell ddihalogi wedi'i chynnwys yn y ddogfen.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r ystafell ddihalogi gael ei chynnwys yn rhestr glanhau'r practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22 (1) (a) | Mae protocol glanhau newydd ar gyfer yr ystafell ddihalogi wedi cael ei roi ar waith ac yn cael ei ddilyn. | Sandra Evans | 12/07/23 |
| **Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom nifer o graciau yn y llawr pren yn yr ystafell ddihalogi, gan olygu nad oedd modd ei lanhau'n drylwyr.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl graciau yn llawr pren yr ystafell ddihalogi eu selio er mwyn sicrhau y gellir ei lanhau'n effeithiol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22 (1) (a) | Mae llawr diogelwch finyl newydd wedi'i osod gan CS Flooring. | Sandra Evans | 26/05/23 |
| **Nododd ein canfyddiadau mai dim ond yn wythnosol yr edrychwyd ar gofnodion data'r awtoclafau.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau yr edrychir ar gofnodion data'r awtoclafau yn ddyddiol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyfarpar yn gweithio'n effeithiol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (2) (a) | Defnyddir llyfr newydd a chaiff amseriadau pwysedd eu diweddaru a'u hargraffu yn ôl y gofyn, a'u hadolygu'n ddyddiol. | Sandra Evans | 26/04/23 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wrth edrych ar ffeil COSHH y practis, gwelsom nad oedd yn cynnwys rhestr o'r deunyddiau a'r cynhyrchion unigol a oedd ar gael yn y practis, na'r broses i'w dilyn pe bai digwyddiad neu ddamwain.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y ffeil COSHH ei diweddaru i gynnwys rhestr o'r deunyddiau a'r cynhyrchion unigol sydd ar gael yn y practis, yn ogystal â'r broses i'w dilyn pe bai digwyddiad neu ddamwain. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22 (1) (a) | Mae camau wedi'u cymryd i ddechrau cofnodi'r holl ddeunyddiau a chynhyrchion sydd ar gael yn y deintyddfeydd yn ogystal â'r broses i'w dilyn pe bai digwyddiad/damwain. | Sandra Evans | 01/08/23 |
| **Wrth edrych ar y cyfarpar brys yn y practis, gwelsom fod y dyddiad ar rai eitemau o gyfarpar wedi mynd heibio. Cadarnhaodd y staff fod eitemau newydd o gyfarpar wedi'u harchebu yn eu lle, ond bod sawl diwrnod o oedi wedi bod cyn iddynt gael eu dosbarthu.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi tystiolaeth i AGIC pan fydd y cyfarpar brys gofynnol wedi cyrraedd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (2) (a) | Dosbarthwyd padiau newydd ar gyfer y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd a chawsant eu gosod ar 01/06/23.<br><br>Prynwyd masgiau newydd a chawsant eu storio gyda'r botel ocsigen a'r bag meddygol ar 27/04/23. | Debbie Gould<br><br>Debbie Gould | 01/06/23<br><br>27/04/23 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Er bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i bob aelod o'r staff clinigol gwblhau hyfforddiant Lefel 2 ar ddiogelu. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 14 (1) (b) | Mae'r staff wedi dechrau dilyn cyrsiau hyfforddiant Lefel 2 ar ddiogelu. | Pob aelod o'r staff | 28/07/23 |
| **Nid oedd y ddyfais ailorchuddio nodwyddau yn cael ei defnyddio fel mater o drefn yn y practis** | Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r staff ddefnyddio'r ddyfais ailorchuddio fel mater o drefn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal mor ddiogel ac effeithiol â phosibl. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (2) (a) | Mae tair dyfais ailorchuddio nodwyddau wedi cael eu gosod yn yr ystafell ddihalogi ac maent yn cael eu defnyddio fel mater o drefn. | Debbie Gould | 25/04/23 |
| **Yn ystod ein hymweliad, roedd lleoliad y pod dihalogi yn golygu mai mynediad cyfyngedig oedd i'r ochr frwnt, gan beri risg i ddiogelwch y staff.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r uned sterileiddio gael ei gosod mewn man arall, fel ei bod yn hawdd cael mynediad i'r ochr lân a'r ochr frwnt. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (2) (a) | Mae'r pod dihalogi yn gwbl weithredol ar 05/23. | Sandra Evans | 05/23 |
| **Nid oedd adroddiad Rheoliad 16 ar waith yn** | Rhaid i reolwr cofrestredig The Whites Dental Centre | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat | Mae adroddiad Rheoliad 16 ar waith. | Yasmin Wright | 18/07/23 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **y practis ar adeg yr arolygiad.** | drefnu i adroddiad Rheoliad 16 gael ei lunio cyn gynted â phosibl. | (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1) | | Sandra Evans | |
| **Wrth edrych ar yr archwiliadau a gynhaliwyd yn y practis, gwelsom nad oedd y practis wedi cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu nac archwiliad o ragnodi gwrthfiotigau CAPRO eto.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad o ragnodi gwrthfiotigau CAPRO eu cwblhau yn fuan. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1) (a) | Mae archwiliad rhoi'r gorau i smygu ar waith.<br><br>Mae archwiliad CAPRO ar waith. | Yasmin Wright<br><br>Sandra Evans | 18/07/23 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): SANDRA EVANS**

**Teitl swydd: NYRS DDEINTYDDOL**

**Dyddiad: 20/07/23**